

**ANGHENION**

**ADDYSGOL**

**ARBENNIG**



**YN NINAS A SIR**

**ABERTAWE**

**CANLLAW I RIENI A GOFALWYR**

## **ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

### **YN NINAS A SIR ABERTAWF**

#### **CYNNWYS**

1. Sut i ddefnyddio'r Pecyn Gwybodaeth hwn.
2. Polisi Anghenion Addysgol Arbennig Dinas a Sir Abertawe.
3. Sut gallwch chi helpu?
4. Darparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yn Ninas a Sir Abertawe.
5. Ymagwedd ymateb graddedig Dinas a Sir Abertawe.
6. Aseiad Statudol dan Ddeddf Addysg 1996.
7. Pwy fydd yn ysgrifennu adroddiadau am eich plentyn ar gyfer Aseiad Statudol dan Ddeddf Addysg 1996?
8. Sut i gyflwyno'ch barn a barn eich plentyn
9. Cyfeiriadau defnyddiol
10. Rhestr o dermau

## 1.

### ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

#### YN NINAS A SIR ABERTAWE

#### SUT I DDEFNYDDIO'R LLYFRYN GWYBODAETH HWN

*Mae'r daflen hon yn dweud wrthy ch i:*

- **Sut i ddefnyddio'r pecyn gwybodaeth hwn.**

Mae llawer o wybodaeth yn y pecyn hwn. Mae'n debyg na fyddwch am ddarllen popeth ar yr un pryd. Bydd rhai adrannau'n fwy defnyddiol pan fyddwch yn dechrau dysgu am anghenion addysgol arbennig. Efallai bydd rhai adrannau'n fwy defnyddiol nes ymlaen.

Gallwch ddefnyddio'r pecyn mewn sawl ffordd. Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani:-

- mae'r adrannau wedi'u rhifo ond does dim rhaid eu darllen mewn trefn.
- bydd y teitl ar flaen pob adran yn eich helpu i benderfynu a yw'r adran yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi nawr.
- cadwch y llyfryn mewn lle cyfleus. Efallai y bydd yn ddefnyddiol ar gyfer gwirio gwybodaeth nes ymlaen. Mae'n bosib y bydd aelodau eraill o'ch teulu neu rai o'ch ffrindiau am ei ddefnyddio hefyd.
- mae'n debyg y byddwch am siarad â rhywun am yr wybodaeth yn y llyfryn hwn. Os yw'ch plentyn yn yr ysgol, bydd ei athro'n fodlon siarad â chi. Efallai y byddai'n well gennych siarad â rhywun o grŵp gwirfoddol fel SNAP Cymru (Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig) sy'n gallu cynnig cyngor a chefnogaeth annibynnol. Mae gan yr ALI swyddog penodol i ymdrin ag anghenion addysgol arbennig. Byddai aelod o'r Tîm Cronfa Ddata Asesu Statudol (01792 636162) yn fodlon iawn siarad â chi hefyd.
- peidiwch â phoeni os yw rhai o'r geiriau yn y llyfryn hwn yn anghyfarwydd i chi. Mae'r llyfryn yn cynnwys adran sy'n esbonio ystyr rhai o'r termau efallai y byddwch yn eu clywed am y tro cyntaf. Weithiau mae pobl sy'n gweithio ym maes addysg yn defnyddio 'jargon' sy'n gallu drysu pobl. Cofiwch ofyn i bobl esbonio os nad ydych wedi deall popeth maen nhw'n ei ddweud.

- mae dwy daflen ar wahân yn y pecyn hwn i'ch helpu i olrhain asesiad eich plentyn. Ar y daflen gyntaf, mae lle i nodi enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn y bobl a fydd yn gweithio gyda'ch plentyn. Bydd yr ail daflen yn eich helpu i gofnodi camau'r asesiad.
- o bryd i'w gilydd, byddwn yn ailysgrifennu adrannau yn y llyfryn hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.
- Mae Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe yn credu ei bod yn bwysig rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i rieni'n gynnar. Mae'r pecyn hwn wedi'i gynhyrchu ar y cyd â SNAP Cymru fel rhan o'r ymrwymiad hwn.

## 2.

### ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

#### YN NINAS A SIR ABERTAWAWE

#### POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG DINAS A SIR ABERTAWAWE

*Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y canlynol:*

- **Polisi Anghenion Addysgol Arbennig Dinas a Sir Abertawe**
- **Beth mae'n ei olygu i chi a'ch plentyn.**

#### **Polisi Anghenion Addysgol Arbennig Dinas a Sir Abertawe**

Mae Deddf Addysg 1996 yn dweud bod **anghenion addysgol arbennig** gan blentyn os yw'r canlynol yn wir:

mae'n cael mwy o anhawster dysgu na'r rhan fwyaf o blant;

neu

mae ganddo anabledd sy'n ei gwneud hi'n anodd iddo ddefnyddio'r ysgolion arferol yn yr ardal leol;

neu

mae bwlch rhwng ymddygiad neu gyflawniad plentyn a'r hyn a ddisgwylir yn yr ysgol.

Mae'r Polisi Anghenion Addysgol Arbennig yn disgrifio'r ddarpariaeth addysgol arbennig sydd ar gael yn Ninas a Sir Abertawe. Pan fydd awdurdod lleol (ALI) yn mabwysiadu polisi, bydd rhaid i'w holl gynllunio yn y dyfodol gyfeirio at y polisi hwn. Mae polisi Dinas a Sir Abertawe'n seiliedig ar brif bwyntiau Deddfau Addysg 1981, 1993 a 1996.

Yn ôl y rhain:

- mae gan ddisgyblion a myfyrwyr yr hawl i gael eu haddysgu'n lleol lle bynnag y bo modd.

- mae gan ddisgyblion a myfyrwyr yr hawl i ddisgwyl y caiff eu hanghenion addysgol arbennig eu nodi a'u hhasesu'n llawn o 2 tan 19 oed.
- gall rhieni ofyn am weld yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu am eu plentyn a chânt eu cynnwys mewn trafodaethau am eu plentyn.
- mae'n rhaid hysbysu rhieni o'u hawliau i ddewis ar wahanol adegau yn addysg eu plentyn. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i anghytuno â phenderfyniad gan yr ALI.
- mae gan lywodraethwyr ac ALI gyfrifoldebau i sicrhau bod anghenion disgyblion a myfyrwyr yn cael eu nodi a bod darpariaeth briodol ar gael hyd at 19 oed os oes ei hangen.
- lle bynnag y bo modd, dylai disgyblion a myfyrwyr gael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gyda'u cydfyfyrwyr, am ran o'r amser neu drwy'r amser.

Ar yr un pryd, mae'r Ddeddf Addysg yn gosod cyfrifoldebau penodol ar yr ALI. Mae'n rhaid i'r ALI roi sylw i'r pwyntiau canlynol:

- defnydd effeithlon o'i adnoddau;
- oedran, gallu ac anghenion addysgol arbennig eich plentyn;
- addysg effeithlon y plant eraill yn yr ysgol.

### **Beth mae'r Polisi Anghenion Addysgol Arbennig yn ei olygu i chi a'ch plentyn?**

Nid yw'ch plentyn yn anarferol am fod ganddo anhawster dysgu - mae llawer o blant yn cael anawsterau dysgu o ryw fath ar adegau gwahanol yn eu haddysg.

- lle bynnag y bo modd, dylid asesu anghenion unigol plant yn eu hysgol eu hunain. Gellir asesu plant cyn oed ysgol gartref.
- lle bynnag y bo modd, dylai'ch plentyn fynd i ysgol leol a chymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol.
- mae gan bob plentyn yr hawl i dderbyn cwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- gall athrawon yn eich ysgol leol wella eu dealltwriaeth o anawsterau dysgu drwy weithio gydag athrawon eraill, weithiau y tu allan i'w hysgol

eu hunain. Mae hyn yn ffordd o gyflwyno cyfarpar a dulliau gwahanol i helpu plant ysgol leol.

- bydd cydlynnydd anghenion addysgol arbennig (SENCO) gan eich ysgol leol a bydd polisi ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol a fydd ar gael i chi.
- bydd un aelod o'r corff llywodraethu â chyfrifoldeb penodol am anghenion addysgol arbennig.
- Mae Dinas a Sir Abertawe'n dosbarthu arian ychwanegol i'w ysgolion ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n rhwydd nodi'r arian hwn yng nghyllideb yr ysgol. Bydd disgwyl i ysgol eich plentyn wario'r arian hwn i ddarparu cyfarpar a staff ar gyfer y plant hyn.
- yn ogystal, gall ysgol eich plentyn ofyn am fathau penodol o gymorth. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran '*Darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn Ninas a Sir Abertawe*'. (Gweler adran 4).
- gwneir pob ymdrech i ddiwallu anghenion eich plentyn yn lleol drwy ddarparu'r cymorth cywir yn y man lle mae ei angen ar eich plentyn. Os oes gan eich plentyn anghenion tymor hir a chymhleth, mae'n bosib y bydd yr ALI yn penderfynu ei bod er lles gorau'ch plentyn os yw'n ceisio cyngor ysgrifenedig ar ei anghenion. Mae'n bosib y caiff Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ei lunio o ganlyniad i'r cyngor hwn.
- bydd y Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig naill ai'n enwi ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig fel y lle gorau i ddiwallu anghenion addysgol arbennig eich plentyn. Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn datganiad yn mynd i ysgolion prif ffrwd.
- mae nifer bach iawn o blant yn mynd i ysgolion y tu allan i Dinas a Sir Abertawe os cytunir nad oes modd diwallu eu hanghenion addysgol arbennig yn Ninas a Sir Abertawe.

### 3.

## ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

### YN NINAS A SIR ABERTAWE

### SUT GALLWCH CHI HELPŪ?

*Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y canlynol:*

- **Sut gallwch fod yn rhan o addysg eich plentyn.**
- **Yr hawliau sydd gennych chi a'ch plentyn.**
- **Eich cyfrifoldebau chi fel rhiant neu ofalwr.**

Os nad yw'ch plentyn wedi dechrau'r ysgol eto ac rydych yn meddwl efallai fod anghenion addysgol arbennig ganddo, siaradwch â'ch meddyg, eich ymwelydd iechyd, eich ymgynghorydd gartref portage neu unrhyw un arall sy'n gweithio i helpu'ch plentyn a gofynnwch am fanylion cyswllt rhywun o'r awdurdod lleol (ALI). Efallai byddai'n ddefnyddiol cysylltu ag un o'r grwpiau gwirfoddol a restrir nes ymlaen yn y llyfryn hwn hefyd. Dylech wneud hyn gynt gynted â phosib fel y gellir cynllunio ar gyfer addysg eich plentyn.

Os yw'ch plentyn eisoes yn yr ysgol, mae'n bosib mai'r athro dosbarth oedd yr un cyntaf i sylweddoli ei fod yn cael anawsterau yn yr ysgol. Bydd yr athro am siarad â chi am ffyrdd o helpu'ch plentyn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn adran 5, *Ymateb Graddedig Dinas a Sir Abertawe at Anghenion Addysgol Arbennig*.

#### **Cofiwch...**

Bydd yr ALI am weithio mewn partneriaeth â chi, ni waeth a yw'ch plentyn wedi dechrau'r ysgol ai peidio.

Mae'ch barn yn hynod bwysig. Rydych chi'n adnabod eich plentyn yn well na neb arall ac mae gennych rôl hanfodol. Er enghraifft, chi yw'r person gorau i siarad am brofiadau cynnar eich plentyn a sut mae'n ymddwyn gartref.

Mae athrawon yn adnabod eich plentyn mewn sefyllfa wahanol a byddant yn awyddus i rannu eu gwybodaeth a phrofiad addysgu â chi.

Mae plant yn ymateb yn dda pan gânt eu canmol a'u hannog. Mae'ch anogaeth a'ch cefnogaeth chi'n bwysig iawn.



## **Os yw'ch plentyn yn mynd i gael asesiad statudol (gweler adran 6)**

Bydd gennych gyfle i gyfrannu at yr asesiad hwn ac mae'ch dealltwriaeth o'ch plentyn a'ch gwybodaeth amdano'n rhan hanfodol o'r broses.

Po fwyaf o wybodaeth sydd gennych, mwyaf y gallwch gyfrannu at asesiad eich plentyn.

Gofynnwch i athrawon neu'r seicolegydd addysg awgrymu unrhyw daflenni neu lyfrau a allai fod o gymorth.

Gofynnwch am gyfieithiad neu ddehonglydd os oes ei angen arnoch.

Gofynnwch i'r ALI am fanylion y cynllun 'Partneriaeth Rhieni' neu cysylltwch â grŵp gwirfoddol megis SNAP.

Gallwch ddewis Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni' (gweler Adran 10) a fydd yn cynnig cefnogaeth i chi pryd bynnag y bydd ei hangen arnoch. Gallent fynd i gyfarfodydd gyda chi, eich helpu i ysgrifennu eich barn a rhoi cyngor a gwybodaeth i chi, yn ogystal â chefnogaeth bersonol.

Gwnewch bob ymdrech i fynd i bob apwyntiad a drefnir ar gyfer eich plentyn. Os ydych yn colli apwyntiad, gallai gymryd llawer mwy o amser i gwblhau asesiad eich plentyn.

Nodwch unrhyw sgysiau ffôn neu gyfarfodydd.

Cadwch gopi o unrhyw beth rydych yn ei ysgrifennu neu ei anfon at yr ALI am eich plentyn.

## **DERBYN I'R YSGOL**

- Os oes modd, ewch i weld nifer o ysgolion cyn i'ch plentyn gyrraedd oed ysgol. Gofynnwch gwestiynau am yr ysgol (gweler isod). Gofynnwch am gopi o bolisi anghenion addysgol arbennig yr ysgol.
- Ni fydd modd penderfynu ar leoliad eich plentyn nes bydd yr asesiad wedi'i gwblhau, felly ni fydd penaethiaid yn gallu cynnig lle i'ch plentyn ar yr adeg hon.

## **Sut gallwch helpu yn yr ysgol...**

Pan fydd eich plentyn wedi dechrau'r ysgol, cadwch mewn cysylltiad ag athro'ch plentyn. Ewch i'w weld yn rheolaidd i rannu gwybodaeth am sut mae'ch plentyn yn datblygu.

Helpwch neu anogwch eich plentyn i weithio ar unrhyw raglenni arbennig a ddarperir gan yr ysgol.

Os oes angen sbectol neu gymorth clyw ar eich plentyn sicrhewch ei fod yn eu defnyddio.

Rhowch wybod i'r ysgol os oes gennych unrhyw bryderon neu os bydd unrhyw beth yn newid gartref.

Ceisiwch ddod i adnabod y llywodraethwr sy'n gyfrifol am anghenion addysgol arbennig.

Ymunwch â grŵp rhieni a siaradwch â rhieni eraill plant ag anghenion addysgol arbennig.

Os oes amser gennych, cynigwch helpu yn yr ysgol neu ymunwch â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRA).

## **Cwestiynau y gallwch eu gofyn yn yr ysgol...**

Faint o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig?

Pa fath o anghenion sydd ganddynt?

Pa gymorth maent yn ei gael yn yr ysgol?

Sut byddaf yn gwybod am gynnydd fy mhientyn yn yr ysgol?

Pwy yw cydlynnydd anghenion addysgol arbennig yr ysgol?

Pwy yw'r llywodraethwr â chyfrifoldeb am anghenion addysgol arbennig?

## **Gwybod eich hawliau a hawliau'ch plentyn**

*Mae gan eich plentyn hawl i gael:*

- cwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol
- addysg briodol i'w anghenion.
- cyfle i gyfrannu at ei asesiad, i'r graddau y mae hynny'n bosib.
- Ystyried ei farn, i'r graddau y mae hynny'n bosib.

- cyfle cyfartal mewn addysg.
- cyfle i gael addysg bellach.

*Mae gennych chi'r hawl i:*

- gael eich cynnwys a chyfrannu at benderfyniadau ynghylch addysg eich plentyn.
- cael eich trin â pharch gan yr holl ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'ch plentyn.
- gwybodaeth am ddarpariaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys enwau holl ysgolion yr ALI yn Ninas a Sir Abertawe.
- gweld polisi anghenion addysgol arbennig yr ysgol a derbyn copi o adroddiad blynyddol yr ysgol.
- mynd gyda'ch plentyn i gyfweiliad, prawf meddygol neu asesiad. Gall ymarferwyr proffesiynol ofyn i gael gweld eich plentyn ar ei ben ei hun rywbryd, oherwydd bod plant yn ymateb yn wahanol pan na fydd eu rhieni gyda hwy.
- derbyn cefnogaeth gan 'Wasanaeth Partneriaeth Rhieni'.
- gofyn i'r ALI gynnal asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig eich plentyn.
- gofyn am ailasesiad o anghenion addysgol arbennig eich plentyn, ar yr amod bod o leiaf 6 mis wedi mynd heibio ers yr asesiad diwethaf.
- mynegi dewis ysgol benodol.
- derbyn copi o'r holl gyngor proffesiynol sy'n cael ei ysgrifennu fel rhan o asesiad eich plentyn.
- apelio at y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig dan yr amgylchiadau canlynol:

mae'r ALI yn gwrthod cynnal asesiad statudol o anghenion eich plentyn ar ôl i chi neu'r ysgol ofyn am un

mae'r ALI yn gwrthod darparu datganiad ar gyfer eich plentyn

rydych yn anghytuno â rhan 2, 3 neu 4 o ddatganiad eich plentyn

mae'r ALI yn gwrthod ailasesu'ch plentyn neu newid enw'r ysgol  
a enwyd yn y datganiad

mae'r ALI yn penderfynu peidio â newid y datganiad ar ôl  
ailasesu'ch plentyn

mae'r ALI yn penderfynu peidio â chynnal datganiad eich  
plentyn.

*Mae dyletswydd arnoch i:*

- sicrhau bod eich plentyn yn mynd i'r ysgol
- cefnogi'ch plentyn yn yr ysgol hyd eithaf eich gallu
- gwneud eich rhan wrth gyfathrebu'n effeithiol â phennaeth a staff yr ysgol.

## ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

### YN NINAS A SIR ABERTAWAWE

#### DARPARU AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG YN NINAS A SIR ABERTAWAWE

**Os oes gennych blentyn ag anghenion addysgol arbennig, byddwch yn awyddus i wybod sut gellir diwallu'r anghenion hyn.**

*Mae'r adran hon yn rhoi gwybod i chi am y trefniadau i ddiwallu anghenion addysgol arbennig yn Ninas a Sir Abertawe.*

#### PLENTYN OED YSGOL

- Mae gan bob ysgol ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- Mae Dinas a Sir Abertawe'n darparu gwasanaethau cefnogi i roi cymorth ychwanegol i ysgolion.
- Mae pob un o ysgolion Dinas a Sir Abertawe wedi ystyried y ffordd orau o helpu plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn wedi'i ysgrifennu fel polisi'r ysgol.
- Bydd yr ysgol yn gwybod beth i'w wneud os oes anghenion addysgol arbennig gan eich plentyn.
- Bydd yr ysgol yn eich cynnwys ac yn sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth angenrheidiol.
- Mae gan bob ysgol athro a elwir yn Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO). Mae'n bosib bod yr athro hwn wedi cael hyfforddiant a phrofiad ychwanegol ym maes addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n bosib y bydd gan yr athro gyfrifoldebau dosbarth hefyd neu, mewn rhai achosion, y pennaeth yw'r cydlynnydd. Gall y cydlynnydd anghenion addysgol arbennig eich helpu chi, eich plentyn ac athro eich plentyn.
- Mae pob ysgol yn gallu cael cyngor gan seicolegydd addysg ac athrawon cefnogi sy'n ymweld â'r ysgol.

- Mae cyllideb ysgolion yn cynnwys arian i'w helpu i ddiwallu anghenion addysgol arbennig eu disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig yn yr Arolwg AAA blynyddol.

### **Pa drefniadau eraill sydd ar gael?**

### **Plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig mewn Ysgolion Prif Ffrwd**

Bydd gan rai plant ag anghenion addysgol arbennig ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Bydd y datganiad yn manylu ar y gefnogaeth i'w darparu i'r plentyn. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth athro arbenigol neu gefnogaeth cynorthwy-ydd addysgu.

### **Athrawon Cefnogi Arbenigol ac Athrawon Ymgynghorol**

Mae gan yr athrawon hyn wybodaeth arbenigol a phrofiad o weithio gyda phlant a chanddynt anawsterau dysgu cyffredinol. Mae athrawon arbenigol hefyd yn gweithio gyda phlant ag anawsterau dysgu sy'n gysylltiedig â phroblemau eraill. Gall yr anawsterau hyn gynnwys nam ar y clyw, anawsterau iaith a lleferydd neu ymddygiad.

*Gall yr athrawon hyn helpu ysgol eich plentyn:*

- i gael mwy o fanylion am anghenion addysgol arbennig eich plentyn
- i gynllunio rhaglenni gwaith unigol
- drwy addysgu'ch plentyn ar ei ben ei hun neu mewn grŵp bach neu drwy gefnogi'ch plentyn yn y dosbarth cyfan
- drwy awgrymu deunyddiau a chyfarpar sy'n fwy priodol i'ch plentyn
- drwy hyfforddi a chynghori athrawon eich plentyn.

### **Cynorthwywyr Addysgu (CA)**

Mae cynorthwywyr addysgu'n helpu'r athro i ddiwallu anghenion addysgol arbennig disgyblion.

*Byddant yn cynorthwyo'r athro fel a ganlyn:*

- helpu'ch plentyn gyda'i waith
- helpu'ch plentyn i gymryd rhan yn y gwaith neu'r dosbarth
- arwain grwpiau bach mewn gweithgareddau a gynlluniwyd gan yr athro
- helpu'ch plentyn gyda'i sgiliau hunangymorth a chymdeithasol
- paratoi gwaith neu ddeunyddiau ar gyfer eich plentyn.

### **Ysgolion ag Adnoddau Ychwanegol (Cyfleusterau Addysgu Arbenigol)**

*Ysgolion cyffredinol yw'r rhain sy'n darparu, mewn dosbarthiadau bach, ar gyfer cyfran fach o blant â mathau penodol o anghenion addysgol arbennig*

- mae'n bosib bod ganddynt staff ychwanegol â gwybodaeth neu hyfforddiant arbenigol
- gallant gynnig deunyddiau neu gyfarpar arbenigol
- gallant dderbyn plant ag anghenion sylweddol iawn na ellir eu diwallu'n hawdd yn eu hysgol leol
- dylai fod ganddynt gynllun integreiddio sy'n cynnwys eich plentyn.

*Os yw'ch plentyn yn mynd i Ysgol ag Adnoddau Ychwanegol:*

- bydd ganddo ddatganiad o anghenion addysgol arbennig
- bydd yn mynd i ysgol brif ffrwd **ond** efallai nad yr un leol
- gall deithio i'r ysgol mewn bws neu dacsî y telir amdano gan yr ALI
- caiff gyfle i gael ei addysgu mewn grŵp bach
- bydd yn gallu cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r ysgol
- gellir darparu therapi lleferydd, ffisiotherapi neu therapi galwedigaethol iddo yn yr ysgol.

*Ceir nifer o Ysgolion ag Adnoddau Ychwanegol yn Ninas a Sir Abertawe. Rhyngddynt, mae ganddynt athrawon sy'n arbenigo mewn:*

- nam ar y clyw

- anawsterau iaith a chyfathrebu
- anawsterau corfforol
- anawsterau dysgu
- anawsterau dysgu dwys a lluosog
- awtistiaeth

*Dyma restr o'r Ysgolion ag Adnoddau Ychwanegol sy'n cynnig nifer o leoedd i blant ag anghenion addysgol arbennig:*

### **Anawsterau Dysgu Cymedrol i Ddifrifol**

#### **ENW**

#### **OEDRAN Y DISGYBLION**

|                              |        |
|------------------------------|--------|
| Ysgol Gynradd Cadle          | 7 -11  |
| Ysgol Gynradd y Clâs         | 3 - 11 |
| Ysgol Gynradd Clwyd          | 3 -11  |
| Ysgol Gynradd y Crwys        | 3 - 7  |
| Ysgol Gynradd Cwmglas        | 7 - 11 |
| Ysgol Gynradd Danygraig      | 3 - 11 |
| Ysgol Gynradd Treforys       | 3 - 11 |
| Ysgol Gynradd Parkland       | 7 - 11 |
| Ysgol Gynradd Tre Uchaf      | 3 - 11 |
| Ysgol Gynradd Townhill       | 3 - 11 |
| Ysgol Gynradd Whitestone     | 3 - 11 |
| Ysgol Gynradd y Trallwn      | 3 - 11 |
| Ysgol Gyfun Gellifedw        | 11-16  |
| Ysgol Gyfun yr Esgob Gore    | 11-16  |
| Ysgol Gyfun Cefn Hengoed     | 11-16  |
| Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | 11-16  |
| Ysgol Gyfun Treforys         | 11-16  |
| Ysgol Gyfun Penyrheol        | 11-16  |
| Ysgol Gyfun Gŵyr             | 11- 6  |



## **Anhwylder(au) y Sbectrwm Awtistig**

| <b>ENW</b>  | <b>OEDRAN Y DISGYBLION</b> |
|---|----------------------------|
| Ysgol Gynradd y Clâs (Difrifol)                                   | 3 -11                      |
| Ysgol Gynradd Clwyd (Cymedrol)                                    | 3 -11                      |
| Ysgol Gynradd Gwyrosydd (Cymedrol)                                | 3 -11                      |
| Ysgol Gyfun Dylan Thomas (Cymedrol)                               | 11-16                      |
| Ysgol Gyfun Tregŵyr<br>(Awtistiaeth Uchel-Weithredu ac Aspergers) | 11-16                      |

Sylwer bod darpariaeth ar wahân ar gyfer awtistiaeth yn Ysgol Isaf Penybryn.

## **Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiad**

Gwneir darpariaeth ar wahân ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad difrifol. Mae's darpariaeth yma yn cynnwys.

| <b>ENW</b>                   | <b>OEDRAN Y DISGYBLION</b> |
|------------------------------|----------------------------|
| Canolfan Addysg Arfryn       | 5 - 5                      |
| Canolfan Addysg CA4          | 15 -16                     |
| Canolfan Addysg 'Step Ahead' | 11 -16                     |

## **Nam ar y Clyw**

| <b>ENW</b>            | <b>OEDRAN Y DISGYBLION</b> |
|-----------------------|----------------------------|
| Ysgol Gynradd Grange  | 3 -11                      |
| Ysgol Gyfun yr Olchfa | 11 -18                     |

## Nam ar y Lleferydd ac Iaith

| ENW                              | OEDRAN Y DISGYBLION |
|----------------------------------|---------------------|
| Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt | 3 -11               |
| Ysgol Gynradd Burlais            | 3 -11               |
| Ysgol Gyfun Pentrehafod          | 11-16               |
| YGG Bryn Tawe (Ysgol Gymraeg)    | 11 - 6              |
| Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt   | 11 -16              |

## Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog

| ENW                       | OEDRAN Y DISGYBLION |
|---------------------------|---------------------|
| Ysgol Gynradd Penllergaer | 3 -11               |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | 11 -16              |

## Ysgolion Arbennig

*Yn yr ysgolion hyn:*

- mae anghenion addysgol arbennig gan yr holl ddisgyblion
- mae gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd gan yr holl staff addysgu
- mae'r dosbarthiadau'n fach
- mae cyfarpar arbenigol ar gael
- mae cynllun integreiddio ar gael sy'n cynnwys eich plentyn.

Mae gan rai ysgolion arbennig gysylltiadau ag ysgol brif ffrwd benodol a gall rhai disgyblion dreulio rhan o'u diwrnod yn yr ysgol hon.

*Os yw'ch plentyn yn mynd i ysgol arbennig:*

- bydd ganddo ddatganiad o anghenion addysgol arbennig
- mae'n bosib y bydd ganddo hawl i deithio i'r ysgol mewn bws arbennig neu dacsï y telir amdano gan yr ALI
- gellir darparu therapi lleferydd, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol neu gymorth nyrsio iddo yn yr ysgol.

Ceir dwy ysgol arbennig yn Ninas a Sir Abertawe. Maent yn cynnig trefniadau addysgu arbennig ar gyfer yr anghenion canlynol:

- anawsterau dysgu cymedrol
- anawsterau dysgu difrifol
- anawsterau dysgu dwys a lluosog.

Mae llawer o'r ysgolion arbennig yn addysgu disgyblion â chyfuniad o anghenion.

#### **ENW**

#### **OEDRAN Y DISGYBLION**

|                      |        |
|----------------------|--------|
| Ysgol Crug Glas      | 3 -19  |
| Ysgol Uchaf Penybryn | 11 -19 |
| Ysgol Isaf Penybryn  | 3 -19  |

#### **PLANT CYN OED YSGOL**

#### **Y trefniadau ar gyfer plentyn nad yw wedi dechrau'r ysgol eto**

Os nad yw'ch plentyn yn mynd i'r ysgol, efallai eich bod yn gwybod eisoes neu'n poeni bod ganddo anawsterau. Mae'n bosib bod ei ddatblygiad yn araf, er enghraifft, neu efallai fod ganddo nam ar y clyw. Efallai yr hoffech i'ch plentyn gael cymorth cyn gynted â phosib. Gellir darparu hyn gan y gwasanaeth portage, athrawon cefnogi arbenigol, neu seicolegydd addysg.

## **Ymgynghorwyr Gartref Portage**

Mae'r Gwasanaeth Portage yn gynllun yn y cartref a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ganddo dîm o weithwyr a fydd yn helpu plant cyn oed ysgol ag anawsterau datblygiadol. Mae aelodau'r tîm wedi'u lleoli yng Nghanolfan Cam wrth Gam ar hyn o bryd.

*Byddant yn:*

- ymweld â chi a'ch plentyn gartref bob wythnos
- dangos i chi ddulliau gwahanol o helpu'ch plentyn i ddysgu
- rhoi benthyg teganau a chyfarpar i chi
- eich helpu i gynllunio gweithgareddau rydych yn gallu eu gwneud gyda'ch plentyn
- adolygu cynnydd eich plentyn gyda chi'n rheolaidd.

*Gellir trefnu cyswllt ag Ymgynghorydd Gartref Portage drwy:*

- Baediatregydd Cymunedol
- Ymwelydd Iechyd
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Neu gallwch gysylltu â nhw eich hunan.

## **Athrawon Cefnogi Arbenigol**

Mae'r athrawon hyn yn gweithio yn y Uned Angherion Addysgiadel Yduranigel ac mae ganddynt brofiad o helpu plant cyn oed ysgol ag anawsterau sy'n gysylltiedig â phroblemau megis nam ar y clyw a'r golwg.

*Bydd yr athrawon hyn yn:*

- ymweld â chi a'ch plentyn gartref
- addysgu'ch plentyn
- rhoi gwybodaeth i chi am sut gall anawsterau'ch plentyn effeithio ar ei ddysgu
- cadw mewn cysylltiad â phobl eraill sy'n gweithio gyda'ch plentyn
- awgrymu ffyrdd y gallwch helpu'ch plentyn
- awgrymu tegantau, gemau a chyfarpar eraill i'w defnyddio.

*Gellir trefnu cysylltiad drwy:*

- Ymwelydd Iechyd
- Meddyg
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Pennaeth eich ysgol leol

## **CWESTIWN**

**Pa ddarpariaeth mae Dinas a Sir Abertawe'n ei gwneud i helpu fy mhlentyn ag anghenion addysgol arbennig i gyrraedd yr ysgol?**

Gellir darparu cludiant am ddim dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae anabledd corfforol gan eich plentyn ac mae angen cludiant arno i fynd i'r ysgol am resymau meddygol
- mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan eich plentyn ac mae'r ALI yn enwi ysgol briif ffrwd neu ysgol arbennig y tu allan i'r ardal ble rydych chi'n byw, yn seiliedig ar anghenion eich plentyn.

Gellir darparu cludiant am ddim mewn amgylchiadau penodol eraill hefyd.

## **CWESTIWN**

**Pa ddarpariaeth mae Dinas a Sir Abertawe'n ei gwneud os nad yw fy mhlentyn yn gallu mynd i'r ysgol?**

Mae'n bosib y gellir trefnu tiwtora gartref dros dro i'ch plentyn.

*Byddai tiwtora gartref yn cael ei drefnu dan yr amgylchiadau canlynol:*

- mae'ch plentyn yn absennol o'r ysgol am fwy na thair wythnos oherwydd salwch
- mae gan eich plentyn salwch terfynol ac mae'n rhy sâl i fynd i'r ysgol
- mae'ch plentyn yn aros am leoliad neu mae wedi cael ei wahardd o'r ysgol yn barhaol.

## ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

### YN NINAS A SIR ABERTAWE

#### YMATEB GRADDEDIG DINAS A SIR ABERTAWE I ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

*Mae'r adran hon dweud wrthyhch:*

- **beth yw ystyr asesiad**
- **sut mae asesiad yn cael ei ddefnyddio i helpu'ch plentyn i ddysgu**

Efallai eich bod wedi clywed pobl yn siarad yn aml am 'asesiad'. Mae llawer ohonom yn drysu am ystyr asesiad am fod y gair yn cael ei ddefnyddio mewn cynifer o ffyrdd gwahanol.

Pan fyddwn yn siarad am asesu anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol, mae'n golygu:

- canfod beth mae plentyn yn gallu ei wneud a'r hyn nad yw'n gallu ei wneud, a'r hyn mae angen i blentyn ei ddysgu
- canfod sut mae ysgol yn gallu helpu plentyn i ddysgu.

#### **Asesiad yw:**

- rhywbeth mae athro'n ei wneud drwy'r amser ar gyfer disgyblion
- rhywbeth sy'n cael ei wneud dros amser
- rhywbeth y gall athrawon dosbarth, athrawon anghenion addysgol arbennig, seicolegwyr addysg a rhieni ei wneud
- rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio i gynllunio addysgu pellach
- NID yw'n rhywbeth sy'n digwydd unwaith yn unig
- NID yw'n nod ynddo'i hun
- NID yw'n brawf IQ yn unig
- NI ellir 'llwyddo' neu 'fethu'.

## **Bydd asesiad o anghenion addysgol arbennig yn cynnwys:**

- gofyn i chi beth mae eich plentyn yn gallu ei wneud
- gofyn am farn eich plentyn ble bynnag y bo modd
- gofyn am unrhyw bryderon neu awgrymiadau sydd gennych
- nodi llawer o fanylion am yr hyn mae'ch plentyn yn gallu ei wneud yn y dosbarth a pha anawsterau sydd ganddo
- canfod yr hyn sydd wedi'i roi i'ch plentyn i'w ddysgu a beth yw'r disgwyliadau
- gwirio pa drefniadau sydd gan yr ysgol i addysgu'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig
- cynllunio gan yr ysgol sut i addysgu'ch plentyn ac yna gwirio ei gynnydd.

Caiff hyn ei wneud fesul cam gan yr ysgol mewn partneriaeth â rhieni. Cyflwynodd Deddf Addysg 1996 ymagwedd cyfeirio gan ysgolion i helpu i asesu anghenion addysgol arbennig eich plentyn. Mae Côt Ymarfer Cymru 2002 wedi diffinio'r camau canlynol fel ateb graddedig

## **Gweithredu Ysgol**

Bydd yr athro dosbarth yn nodi bod anawsterau gan eich plentyn ac yn rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol i oresgyn y rhain. Os yw'r athro dosbarth o'r farn y gall fod angen cymorth ychwanegol ar eich plentyn, bydd yn ymgynghori â chi.

Byddwch chi, athro eich plentyn, athro yn yr ysgol a elwir yn gydlynnydd anghenion addysgol arbennig (SENCO) a'r pennaeth, o bosib, yn cwrdd i drafod eich plentyn. Yn dilyn y trafodaethau hyn, bydd ysgol eich plentyn yn cynllunio'n fanwl yr hyn mae'n bwriadu ei wneud i helpu'ch plentyn. Bydd yn ymchwilio i'r hyn mae ei angen ar eich plentyn i ddysgu, sut i addysgu hyn a phwy fydd yn helpu. Yr enw am hyn yw Cynllun Addysg Unigol. Gall y cynllun hwn gynnwys addysgu ychwanegol neu gyngor.

## **Gweithredu Ysgol a Mwy**

Mae'n bosib y bydd yr ysgol yn siarad â staff addysgol eraill sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, er enghraifft athrawon cefnogi a seicolegwyr addysg. Cyn gwneud hyn, byddant yn eich hysbysu ac yn eich cynnwys.



Bydd angen amser ar ysgolion i weld sut mae'r cynllun yn gweithio ac yna caiff ei adolygu.

Byddant yn eich hysbysu am yr adolygiadau rheolaidd hyn o gynnydd eich plentyn a'r cynllun addysg unigol ac yn eich cynnwys ynddynt.

Ar adegau, bydd rhaid i rai plant symud yn gynt drwy'r ymateb graddedig, er enghraifft os yw plentyn wedi cael anaf difrifol.

### **Cyfeirio ar gyfer Asesiad Statudol**

Weithiau, gallwch chi, yr ysgol neu'r ALI deimlo nad yw anghenion addysgol arbennig eich plentyn yn cael eu diwallu, a bod angen asesiadau ysgrifenedig manylach. Enw'r broses hon yw asesiad statudol. Gellir awgrymu i chi bod asesiad statudol yn cael ei gynnal dan Ddeddf Addysg 1996. Weithiau, cyfeirir at hyn fel 'cael datganiad' ond mae hyn yn anghywir. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys casglu gwybodaeth ysgrifenedig gan yr holl bobl sy'n gweithio gyda'ch plentyn, gan gynnwys chi. Nid yw bob amser yn arwain at ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer eich plentyn. Dyna pam y gall fod yn gamarweiniol cyfeirio at yr asesiad hwn fel 'cael datganiad'.

Dylai asesiadau statudol a datganiadau gael eu gwneud mewn da bryd, er lles pawb sy'n rhan o'r broses. Mae terfynau amser wedi'u pennu ar gyfer pob rhan o'r broses ond, mewn rhai amgylchiadau, ni fydd yn rhesymol disgwyl i bobl fodloni'r terfyniadau hyn.

### **Plant cyn oed ysgol**

Nid oes angen aros nes bod plentyn yn dechrau'r ysgol i gynnal asesiad statudol. Yn aml, mae'n hysbys o oed cynnar bod anghenion addysgol arbennig tymor hir a chymhleth yn debygol o fod gan blentyn. Gellir cynnal asesiad o'r fath pan fydd y plentyn yn ddwy oed os bernir bod hyn yn briodol.

Gallwch gael mwy o fanylion am y math hwn o asesiad yn Adran 6, 'Asesiad dan Ddeddf Addysg 1996'.

## ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

### YN NINAS A SIR ABERTAWE

#### ASESIAD STATUDOL DAN DDEDDF ADDYSG 1996

*Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y canlynol:*

- **Yr hyn mae angen ei wneud os caiff asesiad statudol ei gynnal dan Ddeddf Addysg 1996**
- **Sut mae asesiad statudol yn cael ei gynnal yn Ninas a Sir Abertawe**

#### **Asesiad Statudol dan Adran 323 Deddf Addysg 1996.**

Mae asesiad statudol yn archwiliad manwl iawn a fydd yn ceisio dod o hyd i'r wybodaeth ganlynol:

- pa anghenion addysgol arbennig sydd gan eich plentyn
- sut gellir diwallu'r anghenion addysgol arbennig hyn
- a fydd yr ALI yn ysgrifennu datganiad o anghenion addysgol arbennig ai peidio.

#### **Sut byddaf yn gwybod os bydd angen asesiad statudol ar fy mhleintyn?**

Os yw'ch plentyn yn yr ysgol, bydd yr ysgol eisoes wedi llunio darlun o'r hyn mae'n gallu ei wneud a'r hyn nad yw'n gallu ei wneud yn y cyfnod cyn yr asesiad statudol (gweler adran 5). Bydd ysgol eich plentyn neu'r athro cefnogi arbenigol wedi bod yn gweithio'n agos gyda chi i helpu'ch plentyn i ddysgu. Bydd cynllun addysg unigol wedi'i lunio eisoes. Byddwch chi a'ch plentyn wedi cael eich gwahodd i drafod y cynllun hwn mewn cyfarfodydd adolygu yn yr ysgol. Ni fydd asesiad statudol yn cychwyn oni bai bod eich plentyn yn dal i gael anawsterau ac mae'r ALI o'r farn y gall fod angen cymorth ychwanegol ar eich plentyn.

Os nad yw'ch plentyn wedi dechrau'r ysgol eto, ac rydych chi'n meddwl y gall fod anghenion addysgol arbennig gydag ef, holwch eich ymwelydd iechyd, eich ymgynghorydd gartref portage neu athro cefnogi arbenigol eich plentyn am drefnu apwyntiad gyda seicolegydd addysg.

## **Ni chaiff asesiad statudol byth ei gynnal heb roi gwybod i chi.**

Cyn gynted ag y bydd yr ALI yn dechrau ystyried gwneud asesiad statudol mae'n rhaid iddynt ysgrifennu atoch i ddweud wrthyich pam mae angen asesiad yn eu barn hwy a'r hyn maent yn bwriadu ei wneud.

## **CWESTIWN**

### **Oes modd i mi ofyn am asesiad statudol dan Ddeddf Addysg 1996?**

Oes, mae gennych chi hawl i ofyn i'r ALI gynnal asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig eich plentyn.

Gallwch gyfeirio'ch cais at yr Uned Anghenion Dysgu Ychwamegol yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe.

Ni chaiff yr ALI wrthod oni bai eu bod yn penderfynu nad oes angen asesiad statudol ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth. Mae gennych yr hawl i apelio at y Tribiwnlys AAA yn erbyn penderfyniad o'r fath.

### **Pwyntiau pwysig am asesiad statudol dan Ddeddf Addysg 1996.**

- bydd angen asesiad o'r fath ar ychydig yn unig o blant ag anghenion addysgol arbennig
- does dim angen aros nes bod plentyn yn mynd i'r ysgol
- gofynnir i nifer o bobl ysgrifennu adroddiad ar eich plentyn (gweler adran 7).
- byddwch yn derbyn copiâu o'r holl adroddiadau hyn pan fydd yr asesiad wedi'i gwblhau
- mae'ch cyfraniad chi'n bwysig iawn. Bydd yr ALI yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â chi.
- fel arfer, mae'n cymryd tua 6 mis i gwblhau'r asesiad
- ar ddiwedd yr asesiad, bydd yr ALI yn penderfynu a oes angen ysgrifennu datganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer eich plentyn (gweler isod)
- bydd hawl gennych i dderbyn Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni o'ch dewis a fydd yn gallu darparu cefnogaeth a gwybodaeth.

## **Beth sy'n digwydd pan gynhelir asesiad statudol dan Ddeddf Addysg 1996?**

### **Cam 1**

Bydd yr ALI yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi ei fod yn bwriadu cychwyn asesiad statudol. Bydd gennych 29 o ddiwrnodau i ddweud a ydych yn cytuno i gael yr asesiad ai peidio. Dylech ddefnyddio'r amser hwn i baratoi'ch sylwadau a'u hanfon at yr awdurdod (gweler adran 8). Bydd Swyddog Cyswllt Cartref o'r Uned Amgjemopm Dysgu Ychwanegol cysylltu â chi er mwyn trefnu ymweliad i esbonio proses yr asesiad statudol i chi. Bydd y Swyddog Cyswllt Cartref yn gallu'ch helpu i gwblhau'ch cyngor a'ch sylwadau ar eich plentyn hefyd.

Mae'n rhaid i'r ALI ysgrifennu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r awdurdod iechyd i roi gwybod iddynt ei fod yn bwriadu cynnal asesiad statudol.

## **CWESTIWN**

### **A fydd yr adroddiad yn cyfeirio at faterion preifat y teulu?**

Na fydd, oni bai bod rhywbeth yn effeithio ar addysg eich plentyn. Bydd y person sy'n llunio'r adroddiad yn siarad â chi am yr wybodaeth mae'n ei darparu.

### **Cam 2**

Mae'r ALI yn penderfynu a ddylai'r asesiad gael ei gynnal. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud fel arfer o fewn 6 wythnos i ddyddiad eich llythyr cyntaf.

### **Os yw'r ALI yn penderfynu peidio â chychwyn yr asesiad:**

- byddwch yn derbyn llythyr sy'n esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad hwn
- os ydych yn anghytuno, mae gennych yr hawl i apelio at y Tribiwnlys AAA.

### **Os yw'r ALI yn penderfynu cychwyn yr asesiad:**

- byddwch yn derbyn llythyr sy'n esbonio'n fanylach yr hyn sy'n debygol o ddigwydd yn ystod yr asesiad
- bydd yr ALI yn gofyn i nifer o bobl roi cyngor. Bydd y rhain yn cynnwys pennaeth ysgol eich plentyn, seicolegydd addysg a meddyg sy'n

gweithio ym maes iechyd plant. Byddai'r ALI yn croesawu eich cyngor chi a'ch plentyn hefyd, lle bynnag y bo modd.

- gallwch chi awgrymu pobl eraill yr hoffech iddynt gael eu cynnwys
- mae gan yr ALI 6 wythnos i gasglu'r holl gyngor.

### **Cam 3**

Mae'r ALI yn penderfynu a fydd yn gwneud datganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer eich plentyn.

#### **Os yw'r ALI yn penderfynu peidio ag ysgrifennu datganiad:**

- dylech chi dderbyn 'nodyn yn lle datganiad' a fydd yn esbonio'r rhesymau dros benderfyniad yr ALI
- cewch eich hysbysu am eich hawliau i apelio, gan gynnwys apêl at Dribiwnlys AAA Cymru os ydych yn anfodlon ar y penderfyniad hwn.

#### **Os yw'r ALI yn penderfynu ysgrifennu datganiad:**

- byddwch yn derbyn copi o'r datganiad maent yn bwriadu ei wneud
- byddwch yn derbyn copïau o'r holl gyngor mae'r ALI wedi'i dderbyn
- gofynnir i chi enwi'r ysgol yr hoffech i'ch plentyn fynd iddi. Gallwch enwi'r un mae'n mynd iddi eisoes. Bydd yr ALI yn anfon rhestrau o ysgolion atoch i'ch helpu i ddewis
- Drafft yn unig yw'r datganiad ar y cam hwn a gellir ei newid os nad ydych yn fodlon ar rannau ohono
- byddwch yn gallu trafod unrhyw ran o'r datganiad arfaethedig â swyddog yr ALI sydd wedi'i enwi
- o fewn 8 wythnos, caiff y datganiad ei lofnodi a'i ddyddio, gan gynnwys unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, a'i gyhoeddi fel datganiad terfynol.

## Y Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

### CWESTIWN

#### Beth mae datganiad yn ei gynnwys?

Bydd datganiad yn manylu ar holl anawsterau dysgu'ch plentyn a nodwyd gan yr ALI yn ystod yr asesiad.

Bydd hefyd yn:

- disgrifio'r holl gymorth arbennig y dylai'ch plentyn ei dderbyn i ddiwallu ei anghenion ym marn yr ALI
- cynnwys targedau tymor byr ac amcanion tymor hir i'ch plentyn
- nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd eich plentyn.

#### Cofiwch...

mae gennych yr hawl i anghytuno â'r hyn sy'n cael ei ddweud yn y datganiad

mae'r datganiad yn ddogfen gyfreithiol ac mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch i anfon eich plentyn i'r ysgol y cytunir arni yn y datganiad

mae'n rhaid i'r datganiad gael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Cyfrifoldeb y pennaeth yw trefnu'r adolygiad hwn. Byddwch bob amser yn cael eich gwahodd i'r adolygiad

yn yr adolygiad blynyddol cyntaf ar ôl pen-blwydd eich plentyn yn 14 oed, cytunir ar gynllun pontio. Bydd hwn yn casglu ynghyd yr holl wybodaeth a fydd o gymorth wrth gynllunio i berson ifanc bontio i fywyd oedolyn. Byddwch yn cael mwy o wybodaeth am gynlluniau pontio ar yr adeg honno.

os bydd amgylchiadau'n newid, gallwch chi neu'r ALI ofyn i anghenion eich plentyn gael eu hasesu eto

os yw'r ALI yn penderfynu newid y datganiad neu os yw'n dweud nad oes angen datganiad ar eich plentyn bellach, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i chi'n ysgrifenedig. Mae gennych yr hawl i apelio at y Tribiwnlys AAA.

### CWESTIWN

#### Pa mor hir mae datganiad yn para?

Mae'n bosib y bydd datganiad gyda'ch plentyn am ei gyfnod cyfan yn yr ysgol neu am ran ohono yn unig. Yn seiliedig ar adolygiadau blynyddol o

ddatganiad eich plentyn, gall yr ALI benderfynu bod eich plentyn yn gwneud cynnydd da a'i fod yn gallu parhau gyda'r cymorth ychwanegol y gall ysgol gyffredin ei ddarparu o'i hadnoddau ei hun. Yna gall yr ALI ysgrifennu atoch i ddweud nad ydynt am barhau i gynnal datganiad eich plentyn. Gallwch apelio at y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig. Ni fydd yr ALI yn cynnal datganiad eich plentyn ar ôl iddo adael yr ysgol.

## **CWESTIWN**

### **Beth yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW)?**

Mae aelodau'r Tribiwnlys AAA yn clywed apeliadau rhieni yn erbyn penderfyniadau'r ALI ar asesiadau statudol a datganiadau. Mae tribiwnlysoedd yn cynnwys 3 pherson annibynnol. Bydd un ohonynt yn gyfreithiwr. Bydd gan y ddau aelod arall brofiad o anghenion addysgol arbennig a llywodraeth leol.

Bydd yr ALI yn gallu rhoi manylion i chi am sut i gysylltu â Thribiwnlys AAA Cymru.

## **CWESTIWN**

### **Oes unrhyw gymorth ar gael i mi cyn i fi fynd at y Tribiwnlys AAA?**

Gallwch gael cyngor a chymorth drwy'r Gwasanaeth Datrys Anghytundebau.

Sefydlwyd y gwasanaeth hwn gan yr awdurdodau lleol (ALI) ar draws Cymru a gwasanaethau annibynnol. Mae'n rhoi cyfle i rieni ac ALI gael cyngor a chefnogaeth annibynnol os ydynt yn anghytuno â'r ALI ynghylch datganiad o anghenion addysgol arbennig eu plentyn.

Bydd y gwasanaeth yn darparu cyfryngwyr annibynnol, hyfforddedig a fydd yn siarad â phawb sy'n ymwneud â'r sefyllfa. Bydd y cyfryngwr yn eich helpu chi a'r ALI i archwilio ffyrdd newydd o edrych ar y broblem gyda'r nod o lunio cytundeb sy'n iawn i'ch plentyn. Gall yr ALI neu rieni ofyn am y gwasanaeth hwn.

Mae defnyddio'r gwasanaeth hwn yn wirfoddol ac nid yw'n effeithio ar hawl y rhieni i apelio at y Tribiwnlys AAA. Mae'r gwasanaeth yn Abertawe'n cael ei gefnogi gan y Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig (SNAP)

Mae taflen sy'n disgrifio'r gwasanaeth hwn a sut i gael mynediad iddo wedi'i gynnwys yn y pecyn hwn.

## **CWESTIWN**

### **Â phwy gallaf siarad i gael mwy o gyngor a chefnogaeth nawr?**

Mae SNAP Cymru'n sefydliad annibynnol â changen yn Ninas a Sir Abertawe. Gall y swyddog datblygu gynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth i chi. Gallwch ffonio SNAP ar 0845 1203730.

Mae sefydliadau eraill a allai fod o gymorth wedi'u rhestru yn adran 9.

## **CWESTIWN**

### **Sut caiff cynnydd fy mhentyn ei fonitro?**

Os oes datganiad o anghenion arbennig gan eich plentyn, caiff ei gynnydd ei fonitro bob blwyddyn mewn cyfarfod adolygu blynyddol. Cewch eich gwahodd i ddod i'r cyfarfod hwnnw a mynegi'ch barn. Caiff yr holl adroddiadau sy'n deillio o'r adolygiad eu hanfon atoch chi a phawb sy'n gweithio gyda'ch plentyn a'r ALI.

## **CWESTIWN**

### **Beth am y Cwricwlwm Cenedlaethol?**

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn dweud y dylid addysgu'r un pynciau i bob plentyn.

Cwricwlwm Cenedlaethol:

- caiff pob un o'r pynciau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ei addysgu i'ch plentyn
- caiff cynnydd eich plentyn ei asesu gan yr athro ar 'gyfnodau allweddol' penodol
- bydd yr ysgol yn cofnodi cynnydd eich plentyn ym mhob un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir eithrio plant ag anghenion addysgol arbennig o rannau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu gellir datgymhwyso rhannau ar eu cyfer. Mae'n rhaid eich hysbysu am unrhyw newidiadau arfaethedig a fydd yn effeithio ar eich plentyn.

## **CWESTIWN**

### **Beth sy'n digwydd os oes datganiad o anghenion arbennig gyda'm plentyn ac rwy'n symud o Ddinas a Sir Abertawe i awdurdod lleol arall.**

Dylech chi roi gwybod i Ddinas a Sir Abertawe cyn gynted â bod eich trefniadau'n bendant.



Mae'n rhaid i Ddinas a Sir Abertawe drosglwyddo datganiad eich plentyn i'r ALI newydd.

**Mae'n rhaid i'r ALI newydd:**

- sicrhau bod eich plentyn yn derbyn yr holl gymorth addysgol arbennig a nodir yn y datganiad
- o fewn 6 wythnos i dderbyn y datganiad, mae'n rhaid i'r ALI newydd ddweud wrthy ch pan fyddant yn adolygu'r datganiad ac a ydynt am ailasesu anghenion addysgol arbennig eich plentyn.

**ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG****YN NINAS A SIR ABERTAWE****PWY FYDD YN YSGRIFENNU ADRODDIADAU AM EICH PLENTYN AR  
GYFER ASESIAD?**

*Mae'r adran hon yn dweud wrthyh:*

- **pwyl fydd yn ysgrifennu adroddiadau am eich plentyn ar gyfer asesiad statudol dan Ddeddf Addysg 1996**
- **beth y gallwch ei ddisgwyl ganddynt**
- **pwyl yw'r bobl yn y Adran Addysg, Canolfan Ddinesig**

Os oes plentyn ag anghenion addysgol arbennig gennych, mae'n bosib y byddwch yn ymwneud â llawer o bobl wahanol o'r ALI ac o adrannau eraill fel lechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Efallai y byddwch am wybod pwyl fydd yn ysgrifennu adroddiadau a sut byddant yn cyfrannu.

**Athrawon**

*Dylai athrawon ddweud wrthyh:*

- beth mae'ch plentyn yn gallu ei wneud
- beth yr hoffai athro'ch plentyn iddo ddysgu nesaf
- pa weithgareddau ysgol mae'ch plentyn yn eu mwynhau
- sut mae'ch plentyn yn ymdopi â bywyd pob dydd yr ysgol
- a yw'ch plentyn yn gwneud cynnydd
- beth sydd wedi helpu'ch plentyn i wneud cynnydd
- pa ddulliau sydd wedi cael eu defnyddio yn yr ysgol i helpu'ch plentyn

## **Athrawon Arbenigol ar gyfer plant â nam ar y clyw neu'r golwg.**

Os oes gan blentyn nam ar y clyw neu'r golwg sy'n achosi anhawster dysgu, mae'n rhaid cael cyngor gan athro cymwysedig ym maes nam ar y clyw neu'r golwg. Gall y person hwn gynghori ar y goblygiadau ar gyfer dysgu ac awgrymu ffyrdd o helpu.

## **Athrawon Arbenigol ar gyfer plant ag anawsterau dysgu, anawsterau lleferydd ac iaith, anawsterau emosiynol a/neu ymddygiad neu anhawster corfforol.**

Os oes gan eich plentyn anhawster dysgu, lleferydd neu iaith, neu anhawster corfforol, mae'n bosib y bydd yr ALI yn gofyn am gyngor gan athro cefnogi arbenigol.

## **Seicolegwyr Addysg**

Mae seicolegwyr addysg wedi cael hyfforddiant arbennig i gynghori ar anghenion ac anawsterau plant a sut i'w helpu. Mae seicolegwyr addysg wedi cael eu hyfforddi fel athrawon ac wedi addysgu mewn ysgol hefyd.

Sut maent yn asesu'ch plentyn yn dibynnu ar oedran eich plentyn a natur ei anawsterau, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn dymuno rhoi pethau i'ch plentyn eu gwneud ar ei ben ei hun. Efallai y byddant am arsylwi ar eich plentyn yn yr ystafell ddosbarth neu'r feithrinfa hefyd, siarad â chi a siarad â'r athro neu unrhyw un arall sy'n adnabod eich plentyn yn dda. Mae'n bosib y byddant yn asesu'ch plentyn dros gyfnod o amser.

*Dylai seicolegwyr addysg ddweud wrthyich:*

- pam mae angen iddynt asesu'ch plentyn
- eu barn am gryfderau a gwendidau'ch plentyn
- beth mae'ch plentyn yn gallu ei wneud a'r hyn mae angen iddo ei ddysgu
- effaith bosib unrhyw anabledau ar ddysgu'ch plentyn
- sut gellir helpu'ch plentyn i ddysgu.

## **Gweithwyr Cymdeithasol**

Nid oes gweithiwr cymdeithasol gan lawer o deuluoedd. Os yw hyn yn wir amdanoch chi, ni fydd angen ymweliad gan weithiwr cymdeithasol arnoch. Bydd adroddiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud nad ydynt yn

adnabod eich plentyn. Os yw gweithiwr cymdeithasol yn adnabod eich plentyn, bydd yr adroddiad yn sôn am y canlynol:

- unrhyw drefniadau gofal yn y teulu a allai fodoli
- unrhyw broblemau sydd gennych chi a'ch plentyn a allai effeithio ar ddysgu yn yr ysgol

### **Paediatregwyr Cymunedol**

Mae paediatregwyr cymunedol yn feddygon arbenigol a fydd yn siarad â chi am iechyd ac anghenion meddygol eich plentyn.

*Dylen nhw roi gwybod i chi am:*

- oblygiadau unrhyw ffactorau meddygol ar gyfer addysg eich plentyn, er enghraifft iechyd cyffredinol, golwg a chlyw
- unrhyw archwiliadau mae angen eu gwneud i gyflwr meddygol eich plentyn
- unrhyw gyfarpar arbennig y gall fod ei angen ar eich plentyn.

Maent hefyd yn casglu gwybodaeth gan staff meddygol eraill yn yr awdurdod iechyd.

### **Ymwelwyr Iechyd**

Mae'n bosib y caiff adroddiad ar eich plentyn ei ysgrifennu gan ymwelydd iechyd, sef nyrs sydd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol.

*Dylen nhw roi gwybod i chi am:*

- bwysau, taldra, clyw a golwg eich plentyn
- yr hyn maent yn ei wybod am unrhyw broblemau iechyd a allai fod gan eich plentyn ac awgrymu ffyrdd o oresgyn y problemau hyn neu ymdopi â nhw.

### **Therapyddion Lleferydd**

Mae therapyddion lleferydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig ym maes datblygiad lleferydd ac iaith plant a sut i helpu plant ag anawsterau cyfathrebu.

*Dylen nhw roi gwybod i chi am:*

- sut mae'ch plentyn yn defnyddio lleferydd ac iaith
- a yw symudiadau'r gwefusau a'r tafod sy'n angenrheidiol ar gyfer lleferydd yn anodd i'ch plentyn
- a oes angen unrhyw ddulliau arbennig i helpu'ch plentyn i gyfathrebu, iaith arwyddion er enghraifft
- a oes angen therapi lleferydd ar eich plentyn.

Gallai therapydd lleferydd weithio gyda'ch plentyn ar ei ben ei hun neu mewn grŵp bach. Gallai hyn fod yn y feithrinfa, yn yr ysgol, y clinig neu, weithiau, gartref.

### **Ffisiotherapyddion**

Mae ffisiotherapyddion wedi'u hyfforddi i asesu symudedd a datblygiad corfforol, er enghraifft, cydsymudiad, gallu'ch plentyn i eistedd, sefyll a cherdded. Maent yn cynghori ar y ffyrdd gorau o helpu'ch plentyn i ddatblygu symudedd ymhellach, neu i gynnal cymaint o symudedd â phosib. Maent hefyd yn cynghori ar gymhorthion megis seddi arbennig. Bydd y ffisiotherapydd yn llunio rhaglen yn ystod triniaeth eich plentyn ac yn ailasesu anghenion eich plentyn yn rheolaidd dros amser.

*Dylai ffisiotherapyddion ddweud wrthyh:*

- a oes unrhyw anhawster corfforol gan eich plentyn, er enghraifft osgo, amrediad symudedd, ffurfiant y cyhyrau neu gydsymudiad
- a oes angen triniaeth reolaidd gan ffisiotherapydd ar eich plentyn a'r hyn y dylai'r rhaglen ei gynnwys
- a oes angen sedd, esgidiau, neu gymhorthion cerdded arbennig ar eich plentyn.

### **Therapyddion Galwedigaethol**

Mae therapyddion galwedigaethol wedi'u hyfforddi i ddatblygu gallu'ch plentyn i weithredu'n annibynnol.

*Dylai therapyddion galwedigaethol ddweud wrthyh:*

- faint o annibyniaeth bersonol a sgiliau cymdeithasol sydd gan eich plentyn
- a oes angen cyfarpar arbenigol ar eich plentyn

- a oes angen addasiadau/newidiadau yn eich cartref a pha gymorth sydd ar gael i dalu am waith o'r fath.

### **Addysgwyr Iechyd y Geg**

Mae gan y rhain gymwysterau yn y maes hwn ac, er nad ydynt yn ysgrifennu adroddiadau fel arfer, byddant yn fodlon eich cyngori chi a'ch plentyn ar bwysigrwydd gofal y geg a gofal deintyddol.

### **CWESTIYNAU Y GALLWCH EU GOFYN I'R YMARFERWYR PROFFESIYNOL**

Pwy ydych chi?

Beth yw'ch swydd?

Ble rydych chi'n gweithio?

Sut gallwn gysylltu â chi?

Pa mor aml byddaf yn eich gweld?

Fyddwch chi'n cadw ffeil ar fy mhlentyn?

Gaf fi weld y ffeil?

Oes modd i gyfieithydd fod yn bresennol pan fyddaf yn cwrdd â chi?

Sut byddwch yn cynnal eich asesiad?

Fyddwch chi'n rhannu'ch barn â mi?

### **Cofiwch...**

Os yw pobl yn defnyddio geiriau nad ydych yn eu deall, gofynnwch beth yw'r ystyr. Eu gwaith nhw yw esbonio pethau i chi

Peidiwch ag ofni gofyn iddynt esbonio pethau mwy nag unwaith os nad ydych yn deall. Ar y llaw arall, peidiwch â phoeni os ydynt yn gofyn cwestiynau sy'n ymddangos yn ddiystyr!

Gall ffrind neu berthynas fynd i gyfarfodydd gyda chi. Gallwch hefyd ofyn i gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni fynd gyda chi.

Mae'n syniad da ysgrifennu'r cwestiynau rydych am eu gofyn cyn mynd i'r apwyntiad. Bydd neb yn poeni os ydych yn edrych ar restr i wneud yn siŵr eich bod wedi cofio popeth.

Cofiwch, eich plentyn chi yw ef. Dylai pawb sy'n rhan o'r broses fod yn fodlon iawn ateb eich cwestiynau.

## **CWESTIWN**

### **Pa gysylltiad fydd gan y bobl hyn â'm plentyn?**

Mae'n debygol y bydd y meddyg am eich gweld chi a'ch plentyn gyda'ch gilydd.

*Os yw'ch plentyn yn yr ysgol:*

- mae'n bosib y bydd y seicolegydd am weld eich plentyn yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth a threulio amser gyda'ch plentyn ar ei ben ei hun. Mae gennych yr hawl i fod yno ond, yn aml, mae rhieni'n dewis peidio â bod yn bresennol rhag ofn y bydd hyn yn tynnu sylw eu plentyn. Pan fyddwch yn cwrdd â'r seicolegydd, gallwch benderfynu ar hyn gyda'ch gilydd.

*Os yw'ch plentyn yn ifanc iawn neu heb ddechrau'r ysgol neu'r feithrinfa eto:*

- bydd y seicolegydd yn eich gweld chi a'ch plentyn gyda'ch gilydd, weithiau gartref.

## **CWESTIWN**

### **Pwy yw'r bobl yn y Ganolfan Ddinesig sy'n ymwneud â'r asesiad dan Ddeddf Addysg 1996?**

#### **Panel Anghenion Addysgol Arbennig**

Mae'r panel yn cynnwys grŵp o bobl a fydd yn ystyried yr adroddiadau sy'n cael eu hysgrifennu am eich plentyn. Mae'r panel yn gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog Addysg ynglŷn â'r canlynol:

- a ddylai datganiad o anghenion addysgol arbennig gael ei lunio
- beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion addysgol arbennig eich plentyn.

*Aelodau'r Panel Anghenion Addysgol Arbennig:*

- Pennaeth y Gwasanaeth Mynediad i Ddysgu neu

- Brif neu Uwch Seicolegydd Addysg
- Rheolwr Cefnogaeth Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Aseidiadau Statudol neu'r Prif Swyddog Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Cynrychiolwyr penaethiaid
- Athro cefnogi arbenigol
- Swyddog o'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cynrychiolwyr sefydliadau gwirfoddol wedi'u henwebu

Gwneir argymhellion ynglŷn â phlant yn seiliedig ar anghenion y plentyn ac mae'r holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

### **CWESTIWN**

#### **A fydd angen i mi fynd i'r Panel Anghenion Addysgol Arbennig?**

Na fydd. Byddwch wedi cael cyfle i gyflwyno'ch barn drwy'r asesiad ac mae'ch sylwadau'n rhan hanfodol o ystyriaeth y panel.

### **CWESTIWN**

#### **Sut byddaf yn gwybod am argymhelliad y panel?**

Bydd seicolegydd addysg yn cysylltu â chi pan fydd y Prif Swyddog Addysg sy'n gyfrifol am anghenion addysgol arbennig wedi cymeradwyo'r argymhellion.

### **CWESTIWN**

#### **Beth os nad ydw i'n fodlon ar yr argymhellion?**

Cewch gyfle i drafod hyn â'r 'swyddog a enwir' o'r ALI.

Os ydych yn parhau'n anfodlon, efallai bydd gennych hawl i apelio at y Gwasanaeth Datrys Anghytundebau neu'r Tribiwnlys AAA. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr ALI yn eich cynghori ar eich hawliau ac yn rhoi manylion Tribiwnlys AAA Cymru i chi.



**ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG****YN NINAS A SIR ABERTAWE****SUT I GYFLWYNO'CH BARN**

*Mae'r adran hon dweud wrthyhch:*

- **Sut i gyflwyno'ch barn am anghenion addysgol arbennig eich plentyn**

Mae'ch cyfraniad chi'n bwysig. Chi yw'r person gorau i ddarparu gwybodaeth am flynyddoedd cyntaf eich plentyn a'i fywyd gartref. Fel arfer, bydd Swyddog Cyswllt Cartref neu aelod o'r tîm asesiad statudol yn ymweld â chi, gan ddod â phecyn gwybodaeth i chi.

Byddwch yn cael dau gyfle i gyflwyno'ch barn.

Un o'r rhain yw'r ffurflen o'r enw 'Sylwadau Rhieni'. Gofynnir i chi lofnodi'r ffurflen hon i roi'ch caniatâd am yr asesiad statudol. Mae lle ar y ffurflen hon hefyd i chi gyflwyno'ch sylwadau am yr asesiad i'r ALI. Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddarn arall o bapur. Gall y Swyddog Cyswllt Cartref eich helpu i lenwi'r ffurflen hon a gall ei dychwelyd i'r Ganolfan Ddinesig ar eich rhan.

Yn ail, gofynnir i chi ysgrifennu'ch barn ar bapur â'r pennawd 'Cyngor y Rhieni'. Byddwch yn cael ffurflen o'r enw 'Cyngor y Rhieni' hefyd. Gallwch ddewis defnyddio'r naill ai'r papur, y ffurflen neu'r ddau ohonynt.

Dyma'ch cyfle i ddweud wrth yr ALI bopeth rydych am i ni wybod am eich plentyn.

**Dyma rai awgrymiadau cyn i chi ddechrau:**

- cymerwch amser i drafod eich sylwadau â'ch partner neu aelodau eraill o'r teulu cyn eu hysgrifennu ar bapur. Weithiau, bydd barn rhieni'n amrywio ynghylch anghenion eu plentyn a sut dylid eu diwallu. Nid yw hyn yn anarferol. Gallwch benderfynu ysgrifennu sylwadau'r ddau ohonoch ar wahân neu esbonio bod eich barn yn amrywio.
- efallai yr hoffech siarad â Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni ar yr adeg hon. Gallant drafod eich sylwadau â chi a'ch helpu i'w hysgrifennu'n glir.

- bydd y Swyddog Cyswilt Cartref yn barod iawn i drafod eich sylwadau ac ateb unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd gennych
- mae'ch teimladau am eich plentyn yn bwysicach na gramadeg a sillafu perffaith
- bydd o gymorth os ydych yn ysgrifennu mor glir â phosib gan ddefnyddio pen du. Fel hyn, bydd yn haws i bobl eraill ddarllen eich sylwadau
- Cadwch gopi o bopeth rydych yn ei ysgrifennu
- gallwch ysgrifennu'ch sylwadau yn Gymraeg os hoffech wneud hynny
- os oes gennych farn gref ynglŷn â'ch plentyn, dylech nodi hyn. Weithiau mae rhieni'n poeni na fydd pobl eraill yn hoffi'r hyn maent yn ei ddweud. Nid yw hyn yn bwysig, dylech chi roi eich barn am anghenion eich plentyn a'r ffordd orau o'u diwallu.
- gall eich cyfraniad ysgrifenedig fod mor hir neu mor fyr ag yr hoffech iddo fod.

### **Rhai canllawiau i'ch helpu:**

#### **Y Blynyddoedd Cynnar**

beth rydych yn ei gofio am y blynyddoedd cynnar a allai helpu?

sut roedd eich plentyn fel baban ifanc?

oeddech chi'n hapus am ei ddatblygiad ar y pryd?

pryd dechreuoch chi deimlo nad oedd pethau'n iawn?

beth ddigwyddodd?

pa gyngor neu help gawsoch chi - gan bwy?

#### **Sut mae eich plentyn nawr?**

(efallai na fydd rhai o'r pwyntiau hyn yn berthnasol i'ch plentyn)

**Iechyd Cyffredinol** - Arferion bwyta a chysgu; ffitrwydd cyffredinol, absenoldeb o'r ysgol, mân afiechydon - peswch ac annwyd. Afiechydon/damweiniau/difrifol – cyfnodau yn yr ysbyty. Unrhyw feddyginiaeth neu ddeiet arbennig? Bywiogrwydd cyffredinol - blinder, arwyddion defnyddio cyffuriau, smygu, yfed, arogli glud.

**Sgiliau Corfforol** - Cerdded, rhedeg, dringo, reidio beic, pêl-droed neu gemau eraill, tynnu lluniau, ysgrifennu, gwneud jig-so; defnyddio citiau adeiladu, teclynnau'r cartref, offer, gwnio.

**Hunangymorth** - Lefel annibyniaeth - gwisgo etc.; gwneud y gwely, golchi dillad, cadw'i ystafell yn daclus, ymdopi â bywyd pob dydd; cyllidebu arian poced, annibyniaeth gyffredinol - mynd o le i le.

**Cyfathrebu** - Lefel ei leferydd, esbonio, disgrifio digwyddiadau, pobl, cyfleu gwybodaeth (e.e. negeseuon i'r ysgol ac oddi yno), cymryd rhan mewn sgysiau, defnyddio'r ffôn.

**Chwarae a Dysgu Gartref** - Sut mae'ch plentyn yn treulio ei amser, gwylio'r teledu, darllen er pleser a gwybodaeth, diddordebau, canolbwyntio, rhannu.

**Gweithgareddau Awyr Agored** - Aelodaeth o glybiau, gweithgareddau chwaraeon, hapus ar ei ben ei hun.

Perthnasoedd - â rhieni, brodyr a chwiorydd; â ffrindiau; ag oedolion eraill (ffrindiau a pherthnasau), gartref yn gyffredinol, 'y tu allan' yn gyffredinol. Ydy'ch plentyn yn gwneud ffrindiau'n hawdd?

**Ymddygiad Gartref** - Cydweithredu, rhannu, gwranddo ar geisiadau ac yn eu cyflawni, helpu yn y tŷ, cynnig help, cydymffurfio â threfn a 'rheolau'r' teulu'. Hwyliau da a drwg, pwdu - pyliau o dymer; serchog, serchus.

**Yn yr Ysgol** - Perthnasoedd â phlant eraill ac athrawon; cynnydd wrth ddarllen, ysgrifennu, pynciau eraill a gweithgareddau yn yr ysgol. Sut mae'r ysgol wedi helpu/methu helpu'ch plentyn?  
Ydy'ch chi'n teimlo'n rhan o addysg eich plentyn?  
Ydy'ch plentyn yn mwynhau'r ysgol?  
Beth sy'n arbennig o anodd iddo?

## **Eich barn yn gyffredinol**

Yn eich barn chi, beth yw anghenion addysgol arbennig eich plentyn?

Beth fyddai'r ffordd orau o ddarparu ar eu cyfer?

Beth mae'ch plentyn yn gallu ei wneud yn dda ac yn mwynhau ei wneud?

Beth sy'n achosi pryder i'ch plentyn - ydy e'n ymwybodol o'i anawsterau?

Beth yw eich pryderon?

Oes unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei rhoi i ni:  
am y teulu - digwyddiadau pwysig a allai fod wedi effeithio ar  
eich plentyn?  
adroddiadau gan bobl eraill?  
Â phwy hoffech chi gael mwy o gyswllt?

Sut mae anghenion eich plentyn yn effeithio ar anghenion y teulu cyfan  
yn eich barn chi?

## **Barn Eich Plentyn**

*'Mae gan blant sy'n gallu llunio barn yr hawl i dderbyn a chyflwyno  
gwybodaeth, mynegi barn, a bod y farn honno'n cael ei hystyried mewn  
unrhyw fater sy'n ymwneud â hwy. Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i  
safbwyntiau'r plentyn yn ôl ei oed, ei aeddfedrwydd a'i allu.'*  
(Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

Byddwn yn gofyn i lawer o bobl roi gwybodaeth am eich plentyn. Mae  
barn eich plentyn yn bwysig iawn, felly caiff gyfle i fynegi ei farn. Bydd  
eich plentyn yn cael help i wneud hyn, i'r graddau mae hynny'n bosib,  
mewn ffyrdd sy'n briodol i'w anghenion, ei oedran a'i ddealltwriaeth.

## **Pam mae'n rhaid i ni wneud hyn?**

Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn am faterion sy'n effeithio arnynt.

Yn aml mae gan blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig  
wybodaeth unigryw am eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain  
ac mae ganddynt eu barn bersonol am y fath o gefnogaeth yr hoffent ei  
chael i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar eu haddysg. Hoffem helpu'ch  
plentyn i fynegi ei farn fel y gall y Panel AAA ei hystyried. Wrth  
helpu'ch plentyn i fynegi ei farn, byddwn yn ceisio sicrhau bod eich  
plentyn yn hyderus y bydd rhywun yn gwrandao ar ei farn ac yn ei  
gwerthfawrogi.

## **Pwy allai ymwneud â hyn?**

Yn aml, bydd angen amser neu gymorth ychwanegol ar blant i fynegi eu  
barn a'u sylwadau, naill ai gennych chi neu gan unrhyw rai o'r  
ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'ch plentyn. Gallai'r rhain  
gynnwys athrawon neu staff cefnogi mewn ysgolion, seicolegwyr  
addysg, therapyddion, gweithwyr cymdeithasol, neu ymarferwyr iechyd  
proffesiynol eraill. Bydd eich plentyn yn cael dewis yr oedolyn i'w helpu  
i fynegi ei syniadau a'i ddymuniadau.

Bydd yr oedolyn sy'n cael ei ddewis yn ymrwymo i wrando ar sylwadau'ch plentyn a'u cofnodi mewn unrhyw adroddiadau.

### **Sut caiff hyn ei wneud?**

Gan weithio gyda phawb sy'n rhan o'r broses, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio defnyddio dulliau hawdd eu deall er mwyn ceisio barn disgyblion.

Mae'n bosib y bydd angen cymorth oedolyn neu adnoddau eraill ar blant ag anghenion penodol, i'w helpu i gyfathrebu.

Er enghraifft, gallai hyn fod drwy:

- wybodaeth argraffedig
- fideo
- arwyddo
- braille
- gwybodaeth wedi'i theipio
- cyfathrebu/dehonglydd
- lluniau/ffotograffau

Bydd y Swyddog Cyswllt Cartref yn hapus i drafod yr opsiynau sydd ar gael os bydd angen.

**ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG****YN NINAS A SIR ABERTAWE****CYFEIRIADAU DEFNYDDIOL****CYFEIRIADAU YNG NGHYMRU****Uned Anghenion Addyngadeg Ychwanegol**

Tîm Ymddygiad a Dysgu  
Canolfan Addysg Dan-y-Coed  
Clôs Huntington  
West Cross  
SA3 5AL  
01792 405689

**Uned Anghenion Addyngadeg Ychwanegol**

Gwasanaeth Seicoleg Addysg ac Asesu  
Statudol  
Cyfarwyddiaeth Addysg  
Canolfan Ddinesig  
Abertawe  
SA1 3SN  
01792 636162

**Uned Anghenion Addyngadeg Ychwanegol**

Addysg Fel Arall  
Canolfan Addysg Dan-y-Coed  
Clôs Huntington  
West Cross  
SA3 5AL  
01792 405689

**Barnardos**

Cwrt Trident  
Heol East Moors  
Caerdydd  
CF24 5TD

**Bobath Cymru**

19 Heol y Parc  
Yr Eglwys Newydd  
Caerdydd  
CF14 7BP  
02920 522600

**Tîm Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

P.O. Box 686  
Abertawe  
SA1 9PB  
01792 635180

**Anabledd Cymru**

Tŷ'r Bont  
Parc Busnes Caerffili  
Heol Van  
Caerffili  
CF83 3GW  
02920 887325

**Fforwm**

Eiriolaeth eich Llais (Your Voice Advocacy)  
22 Stryd Craddock  
Abertawe  
SA1 3HE  
01792 646573

**Ffrindiau'r Anabl Ifanc**

300 Heol Caerfyrddin  
Cwmbwrla  
Abertawe  
SA5 8NJ  
01792 458520

**MIND Cymru**

3<sup>ydd</sup> llawr  
Tŷ Quebec  
Pont y Castell  
5 - 19 Heol y Bontfaen Dwyrain  
Caerdydd  
CF11 9AB  
02920 395123

**Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-Nedd Port****Talbot**

Tŷ Margaret Thorne  
19, Stryd Alfred  
Castell-Nedd  
SA11 1EF  
01639 631246

**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i'r Deillion****(RNIB) Cymru**

Canolfan Addysg  
Coleg Trident  
Heol Eastmoors  
Caerdydd  
CF24 5TD  
02920 450440

**Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe**

7 Heol Walter  
Abertawe  
SA1 5NF  
01792 544000

**SNAP**

250 Heol Caerfyrddin  
Abertawe  
SA1 1HG  
Llinell gymorth: 08451 203730  
[www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org)

**Mencap (Cymru)**

31 Cilgant Lambourne  
Parc Busnes Caerdydd  
Llanisien  
Caerdydd  
CF14 5GF  
02920 747588

**Canolfan Blant Cam wrth  
Gam**

Tŷ George Thomas  
363 Heol Gŵyr  
Cilâ  
Abertawe  
SA2 7AH  
01792 294000

**SCOPE Cymru**

4 Cwrt Tŷ Nant  
Ffordd Schooner  
Morganstown  
Caerdydd  
CF15 8LW  
02920 815450

**SENSE (Cymru)**

Ysgol Arbennig Yr Hendre  
Castell-Nedd  
SA10 7TY  
01639 642786

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**

Tŷ Glenview  
Stryd Tŷ Cwrt  
Pontypridd  
CF37 1JY  
01443 485687  
01443 485686 (minicom)

**Cyngor Cymru i'r Deillion**

3<sup>ydd</sup> llawr Stryd Tŷ Hallinans  
22 Heol Casnewydd  
CF24 0TB  
02920 473954

**Gweithredu Dyslecsia Cymru**

Canolfan Caerdydd  
14 - 18 Heol y Ddinas  
Caerdydd  
CF24 3DL  
02920 481122

**Cymdeithas Dyslecsia Gorllewin Cymru**

Prifysgol Fetropolitan Abertawe  
Mount Pleasant  
Abertawe  
01792 481000

**Gweithredu dros Blant, Y Fenni**

Lôn Coed Glas  
Y Fenni  
NP7 5LE  
01873 852393



## CYFEIRIADAU ERAILL

### **AFASIC (Trechu Namau Llefru)**

1<sup>st</sup> Floor Bowling Green Lane  
Llundain  
EC1R 0BD  
02074 909410

### **Advisory Centre for Education (ACE)**

1B Aberdeen Studios  
24A Highbury Grove  
Llundain  
N5 2EA  
02077 043370

### **Association for Spina Bifida & Hydrocephalus (ASBAH)**

Asbah House  
42 Park Road  
Peterborough  
Swydd Gaergrawnt  
PE1 2UQ

01733 555988

#### **Ataxia UK**

9 Winchester House  
Kennington Park Estate  
1-3 Brixton Road  
Llundain  
SW9 6DE  
02075 821444

### **Association for Entrust Children**

Brook View  
Brook View House  
68 Brookside Avenue  
Coventry  
West Midlands  
CV5 8AF

### **Association for Stammerers**

Old Ford Road  
Llundain  
E2 9PJ  
02089 831003

### **British Dyslexia Association**

Unit 8/Bracknell Beeches  
Old Bracknell Lane  
West Bracknell  
RG12 7BW  
08452 519003  
bdadyslexia.org.uk

### **British Epilepsy Association**

New Anstey House  
The Gateway Drive  
Yeaden  
Leeds  
LS19 7XY  
01132 108800

### **Brittle Bone Society**

30 Guthrie Street  
Dundee  
DD1 5BS  
01382 204446  
brittlebone.org

### **Cymdeithas y Plant**

Edward Rudolph House  
69 - 85 Margery Street  
Llundain  
WC1X 0JL  
08453 001128

### **Contact-a-Family**

209 – 211 City Road  
Llundain  
EC1V 1JN  
02076 088700

### **Council for Disabled Children**

c/o National Children's Bureau  
8 Wakley Street  
Llundain  
EC1V 7QE  
0207 8436000

**Cystic Fibrosis Trust**

11 London Road  
Bromley  
Kent  
BR1 1BY  
02084 647211

**Disability Alliance Social Security Rights**

Advice Line  
1<sup>st</sup> Floor East  
Universal House  
88 – 94 Wentworth Street  
Llundain  
E1 7SA  
02072 478759

**Disabled Living Foundation**

Ground Floor  
Landmark House  
Hammersmith  
Bridge Road  
Llundain  
W6 9EJ  
02072 896111

**Down's Syndrome Association**

The Langdon Down Centre  
2 Langdon Park  
Teddington  
Llundain Fawr  
TW11 9PS  
02086 145100

**Dyspraxia Trust**

8 West Alley  
Hitchin  
Herts  
SG5 1EG  
01462 454986

**Haemophilia Society**

1<sup>st</sup> Floor  
Petersham House  
Hatton Garden  
Llundain  
EC1N 8JG  
02078 311020

**HEADWAY (National Head Injuries  
Association Ltd)**

Bradbury House  
190 Bagnall Road  
Old Basford  
Nottingham  
Nottinghamshire  
NG5 3FJ  
01159 240800

**Huntington's Disease  
Association**

Down Stream Building  
1 London Bridge  
Llundain  
SE1 9BG  
02070 221950

**IN TOUCH (Cyswilt a Gwybodaeth)  
Partneriaethau Strategol a Gwasanaethau  
Blaengar**

30 Park Street  
Llundain  
SE1 9EQ  
02032 072600

**IPSEA (Panel Annibynnol dros  
Addysg Arbennig)**

6 Carlow Mews  
Woodridge  
Suffolk  
IP12 1EA  
08000 184016

**Leukaemia Care Society**

One Birch Court  
Blackpole East  
Caerwrangon  
WR3 8SG  
01905 755977

**LOOK**

c/o Queen Alexandra College  
49 Court Oak Road  
Harborne  
Birmingham  
B17 9TG  
01214 285038

**Muscular Dystrophy Group**

61 Southwark Street  
Llundain  
SE1 0HL

**National Asthma Campaign**

Summit House  
70 Wilson Street  
Llundain  
EC2A 2DB

**National Autistic Society (gan gynnwys  
Asperger Syndrome Support)**

391 – 393 City Road  
Llundain  
EC1V 1NG  
02078 332299

**National Deaf Children's Society**

15 Dufferin Street  
Llundain  
EC1Y 8UR  
02074 908656

**National Eczema Society**

Hill House  
Highgate Hill  
Llundain  
NW11 6NA  
02078 436000

**National Meningitis Trust**

Fern House  
Daniels Industrial Estate  
104 Bath Road  
Stroud  
Swydd Gaerloyw  
GL5 3TJ  
01453 768000

**Parents for Inclusion**

Council for Disabled Children  
8 Wakely Street  
Llundain  
EC1V 7QE  
02078 436000

**Perthes Association**

Astolat  
Coniers Way  
New Inn Lane  
Burpham  
Guildford  
GU4 7HL  
01483 306637

**Prader-Willi Syndrome Association**

PWSA (UK)  
125 London Road  
Derby  
DE1 2QQ  
01332 365676

**Royal Association for Disability &  
Rehabilitation (RADAR)**

12 City Forum  
250 City Road  
Llundain  
EC1V 8AF  
02072 503222

**Royal National Institute for the Blind  
(RNIB)**  
105 Judd Street  
Llundain  
WC1H 9NE  
03031 239999

**SENSE**  
43 Rye Lane  
Llundain  
WE15 5ER  
02076 391077

**Sickle Cell Society**  
54 Station Road  
Llundain  
NW10 4UA  
02089 617765

**Special Educational Consortium**  
c/o Council for Disabled Children  
Llundain  
EC1V 7QE  
02078 439709

**Spinal Injuries Association**  
SIA House  
2 Trueman Place  
Oldbrook  
Milton Keynes  
MK6 2HH  
08456 786633

**Stroke Association**  
240 City Road  
Llundain  
EC1V 7QE  
03033 033100

**Tourette Syndrome (UK) Association**  
Kings Court  
91 – 93 High Street  
Camberley  
Surrey  
GU15 3RN  
03007 778427

**Tuberous Sclerosis Association of GB**  
PO Box 8001  
Derby  
DE1 0YA  
01211 4456970

**UK Rett Syndrome Association**  
113 Friern Barnet Road  
New Southgate  
Llundain  
N11 3EU  
01582 798910

**Family Fund**  
Unit 4  
Alpha Court  
Monks Cross Drive  
Huntingdon  
Caer Efrog  
Y032 9WN  
08451 304542

## **ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

### **YN NINAS A SIR ABERTAWE**

#### **RHESTR O DERMAU**

##### **Deddf Addysg 1996**

Daeth y Ddeddf hon i rym ar 24 Gorffennaf 1996. Mae'n disodli Deddfau Addysg 1981 a 1993.

##### **Adolygiad Blynyddol**

Cyfarfod sy'n cael ei gynnal, fel arfer yn ysgol eich plentyn, o leiaf unwaith y flwyddyn i weld a oes angen unrhyw newidiadau i ddatganiad eich plentyn.

##### **Asesiad Statudol**

Archwiliad manwl o anghenion addysgol arbennig plentyn. Gall hyn arwain at Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

##### **Ysgol a Gynhelir â Grant**

Ysgol wladol sydd wedi ei 'heithrio' o reolaeth yr ALI

##### **Cynllun Addysg Unigol**

Caiff hwn ei lunio gan yr athro sy'n gyfrifol am anghenion addysgol arbennig. Bydd y cynllun yn pennu targedau i'ch plentyn eu cyflawni a dyddiad i adolygu pa gynnydd mae wedi'i wneud.

##### **Awdurdod Addysg Lleol (ALI)**

Y corff llywodraeth leol sy'n gyfrifol am ddarparu addysg ac am gynnal asesiadau statudol a chynnal datganiadau.

## **Swyddog a Enwir**

Yr unigolyn yn yr ALI sy'n gallu siarad â chi am asesiad statudol a datganiad eich plentyn.

## **Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni**

Sefydliad a fydd yn rhoi gwybodaeth a chynghor i chi am anghenion addysgol arbennig eich plentyn. SNAP Cymru (Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig) yw'r prif sefydliad yn Ninas a Sir Abertawe ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gennych hawl i ddewis sefydliad arall.

## **Cwricwlwm Cenedlaethol**

Cwricwlwm yw'r enw am yr hyn sy'n cael ei addysgu i blentyn yn yr ysgol. Argymhellir y dylai ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r plentyn.

## **Tribiwnlys AAA**

Sefydlwyd y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig gan Ddeddf Addysg 1993. Mae'n ystyried apeliadau rhieni yn erbyn penderfyniad awdurdodau lleol (ALI) ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig plentyn, lle nad yw'r rhieni a'r ALI yn gallu cytuno.

## **Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Mae anghenion addysgol arbennig gan blentyn os yw'n cael anawsterau dysgu mae angen trefniadau arbennig ar eu cyfer.

## **Cydlynnydd AAA (SENCO)**

Yr aelod o staff mewn ysgol sy'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth AAA yn yr ysgol. Mewn ysgol fach, gall y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth gyflawni rôl y SENCO. Gall fod tîm cydlynu AAA mewn ysgolion mwy.

## **Ymateb Graddedig**

Mae'r Côt Ymarfer yn argymhell y dylai ysgolion ymateb i anghenion plentyn fesul camau graddedig, gan gydweddu lefel y cymorth i anghenion penodol y plentyn.

## **Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig**

Dogfen gyfreithiol sy'n amlinellu holl anghenion addysgol arbennig eich plentyn a'r cymorth arbennig y dylai ei dderbyn.

### **Cynllun Pontio**

Cynllun a ddylai fod yn rhan o bob adolygiad blynyddol a gynhelir ar ôl pen-blwydd eich plentyn yn 14 oed. Diben y cynllun yw casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o bobl, yn yr ysgol a'r tu allan iddi, er mwyn trefnu i berson ifanc bontio i fywyd oedolyn.

### **Grwpiau Gwirfoddol**

Grwpiau o bobl sy'n rhannu diddordeb cyffredin yw'r rhain. Mae'r rhan fwyaf o grwpiau'n elusennau cofrestredig. Maent yn cwrdd i rannu gwybodaeth, cefnogi ei gilydd ac, yn aml, maent yn codi arian i helpu'r grŵp.

**Y bobl sy'n ymwneud ag asesiad fy mhlentyn  
dan Ddeddf Addysg 1996**

*(Efallai na fydd y rhain yn berthnasol i chi)*

| <b>POBL</b>  | <b>ENW</b> | <b>RHIF FFÔN</b> |
|--|------------|------------------|
| Seicolegydd Addysg   |            |                  |
| Gweithiwr cyn oed ysgol<br>(e.e Ymgynghorydd Gartref<br>Po.rtage, Athro Cefnogi) |            |                  |
| Cyswllt yn yr ysgol  |            |                  |
| Cyswllt yn yr Is-adran<br>Uned Anghenion Dysgu<br>Ychwanegol                     |            |                  |
| Paediatregydd Cymunedol  |            |                  |
| Therapydd Lleferydd  |            |                  |
| Ffisiotherapydd  |            |                  |
| Therapydd Galwedigaethol   |            |                  |
| Gweithiwr Cymdeithasol   |            |                  |
| Gwasanaeth Partneriaeth<br>Rhieni  |            |                  |
| Erail  |            |                  |



**Eich cofnod o'r camau a'r dyddiadau yn asesiad eich plentyn dan  
Ddeddf Addysg 1996**

|  | <b>Dyddiad</b> |
|--|----------------|
| <p><b>CAM 1</b><br/>* Wedi derbyn llythyr gan yr ALI i ystyried a oes angen asesiad.<br/>*Wedi cysylltu â 'Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni'.</p>  |                |
| <p><b>CAM 2</b><br/>* Wedi mynegi fy marn i'r ALI am yr angen i gynnal asesiad.<br/>* Wedi dychwelyd y ffurflen ganiatâd a rhoi gwybod i'r ALI pwy sydd wedi cael ei ddewis fel fy 'Ngwasanaeth Partneriaeth Rhieni'.<br/>* Wedi darllen adran 8, 'Ysgrifennu eich Adroddiad ar gyfer Asesiad.'</p>  |                |
| <p><b>CAM 3</b><br/>* Wedi derbyn llythyr gan yr ALI i ddweud a fydd asesiad yn cael ei gynnal ai peidio.<br/>Os caiff yr asesiad ei gynnal:<br/>* apwyntiad gyda'r Seicolegydd Addysg.<br/>* apwyntiad am brawf meddygol arbennig.<br/>* unrhyw apwyntiadau eraill ar gyfer yr asesiad.</p>   |                |
| <p><b>CAM 4</b><br/>* Yr ALI wedi cysylltu â mi:<br/>a) Datganiad arfaethedig a chyngor wedi'u derbyn neu<br/>b) Ni chaiff datganiad ei roi</p> <p>* Wedi anfon fy ymateb i'r ALI:<br/>a) Wedi cytuno â'r datganiad arfaethedig a'r ysgol o ddewis a enwyd.<br/>neu<br/>b) Wedi anghytuno â'r datganiad arfaethedig.<br/>neu<br/>c) Wedi anghytuno â'r penderfyniad i beidio â rhoi datganiad.</p> |                |
| <p><b>CAM 5</b><br/>* Wedi cysylltu â'r ALI i drafod gwahaniaeth farn am y datganiad arfaethedig,<br/>y cyngor neu'r dewis ysgol, neu'r penderfyniad i beidio â rhoi datganiad.</p>  |                |
| <p><b>CAM 6</b><br/>* Wedi derbyn llythyr gan yr ALI sy'n amgáu:<br/>a) Datganiad terfynol, wedi'i lofnodi a'i ddyddio.<br/>b) Gwybodaeth am y tribiwnlys AAA.</p>   |                |
| <p>Bydd o gymorth hefyd os ydych yn cadw'r holl lythyrau rydych yn eu derbyn am asesiad eich plentyn a chopïau o unrhyw lythyrau rydych chi'n eu hysgrifennu. (Gweler taflen 3, 'Sut Gallwch Helpu').</p>  |                |